

Ein Strategaeth

Adeiladu cartrefi, creu cymunedau & trawsnewid bywydau

united
welsh

Mae United Welsh yn gorff nid-er-elw arloesol sy'n darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer pobl yn ne Cymru. Rydym yn cyflogi oddeutu 400 person o fewn y Grŵp, sy'n cynnwys ein partneriaid Celtic Horizons Ltd, yn edrych ar ôl ein gwasanaethau eiddo, a Harmoni Homes Ltd yn adeiladu cartrefi fforddiadwy a chartrefi i'w gwerthu ar y farchnad.

Ar hyn o bryd rydym yn rheoli ychydig dros 6,000 cartref ar draws 11 awdurdod lleol, gan adeiladu dros 1,000 cartref yn y pum mlynedd diwethaf. Rydym yn darparu amrediad eang o gartrefi yn cynnwys ExtraCare a llety cymorth, ac wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill i gynnal projectau arbenigol er helpu i ddiogelu lles pobl a'u cymell i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

Wrth weithio mewn ysbryd sy'n symbylu hyder a dilysrwydd, a rheoli risgiau byddwn yn datblygu diwylliant blaengar er mwyn ein helpu i anwesu syniadau newydd a gwireddu blaenoriaethau. O fewn amgylchedd a siapiwyd gan ein profiadau o COVID-19, byddwn yn gwrandao ar ein cwsmeriaid ac yn adlewyrchu eu hanghenion wrth lywio ein gwasanaethau.

Rydym yn benderfynol o wneud gwahaniaeth, cadw pobl yn saff ac anwesu amrywiaeth, gan herio annhegwch, gweithio'n effeithiol ac effeithlon, a helpu pawb i elwa o'u cryfderau. Ein nod yw helpu pobl i fwynhau eu bywydau, cynnig dewis, chwarae ein rhan wrth waredu digartrefedd, tacio tlodi a darparu cartrefi diogel, ynghyd â threfnu cymorth a chyfluoedd ar gyfer y cymunedau rydym mor falch o gefnogi. Byddwn yn buddsoddi er mwyn cyrraedd lefel sero carbon net ac uchafu defnydd o dechnoleg er lles ein busnes a chwsmeriaid, a pharhau i flaenoriaethu'r bobl sydd angen ein cymorth.

Ein cynlluniau ar gyfer y pum mlynedd nesaf

01

Darparu 180 swydd o safon ar gyfer tenantiaid dros y tair blynedd hyd 2022



02

2,500 tenant i ddefnyddio'r App tenantiaid erbyn 2026



03

Erbyn 2026 darparu o leiaf 1,300 cartref newydd gan adeiladu cartrefi a ddarperir yn uniongyrchol ar lefelau ynni effeithiol uchel, 15% ohonynt ar sail egwyddorion Passivhaus



04

Erbyn 2026 pob cerbyd yn y fflyd i fod yn gerbydau trydan



05

Adeiladu 300 cartref newydd erbyn 2026 gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern



Cyflawni hynny

1. Addasu gwasanaethau mewn ymateb i anghenion ein cwsmeriaid a hwyluso cysylltu â ni ar blatfformau digidol. Parhau i ddarparu gwerth da am yr arian wrth arloesi a herio ein dulliau darparu gwasanaethau.



2. Cydweithio â phartneriaid cymdeithasol a masnachol er creu cyfleoedd gwaith tâl a di-dâl, a rhaglenni hyfforddi.



3. Cynnal asedau tai er sicrhau byddant yn addas ar gyfer y dyfodol, ac yn fforddiadwy i ni a'n tenantiaid, a darparu cartrefi newydd o safon fydd yn defnyddio technolegau carbon isel.



4. Creu amgylchedd ble bydd pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau, yn atebol ac yn ddigon hyderus i ofyn am gymorth er taclo effeithiau diwygiadau lles. Byddwn yn cydweithio mewn partneriaeth â chyrrff gyda'r un amcanion er cryfhau cymunedau wrth wella iechyd a lles.



5. Cydweithio'n effeithlon er gwella lles a boddhad, gyda thechnoleg a systemau'n hwyluso arloesi a dulliau gweithio modern o fewn amgylchedd wedi'i siapio gan brofiadau Covid-19



6. Rheoli ein cyllid yn ofalus er creu gwarged iachus, gan sicrhau bydd ein gwasanaethau yn cyrraedd eu targedau

